# Effeithiau Posibl Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru ar yr Economi a Nwyon Tŷ Gwydr: Dadansoddiad Diwygiedig

Mehefin 2025


*1 Cyflwyniad/trosolwg ..... 2*

*2 Ein Dadansoddiad Diwygiedig ..... 4*

*3 Effaith Cyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr ar yr Economi – trosglwyddo 100% o'r Ardoll ..... 7*

*4 Effaith Economaidd Ardoll Ymwelwyr – Amsugnwyd gan Fusnes ..... 18*

*5 I gloi ..... 22*

# 1 Cyflwyniad/trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amcangyfrif effaith yr Ardoll Ymwelwyr arfaethedig yng Nghymru ar yr economi ac allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer dwy set o gyfraddau ar gyfer llety dosbarth Safonol ac Is: £1.30 / £0.75 a £2.00 / £1.00 yn y drefn honno. Yn y ddau achos, caiff plant a phobl ifanc sy'n aros mewn llety Band Is eu heithrio o'r Ardoll.

Amcangyfrifwn darged economaidd potensial yr Ardoll drwy ddefnyddio deunydd darllen academaidd a deunydd darllen arall sy'n awgrymu ystod o ymatebion posibl gan ymwelwyr, ac yna defnyddiwn gyfrif economaidd rhanbarthol wedi'i deilwra i Gymru – cyhoeddodd Prifysgol Caerdydd *Tablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru*[1] – er mwyn trosi'r newid yng nghyfeintiau ymwelwyr yn 'sioc'[2] economaidd ar yr economi ranbarthol. Mae Tablau Mewnbwn-Allbwn yn disgrifio'r cydberthnasau gwerthu a phrynu rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr mewn economi. Mae'r rhain yn un o nifer o fethodolegau a ddefnyddir i amcangyfrif effaith newidiadau mewn amodau economaidd ar economi gyfan. Mae dull y Tablau o fodelu'r economi yn galluogi ar gyfer rhoi gwybod am ganlyniadau economaidd allweddol, sy'n cynnwys incwm gwario, Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) a chyflogaeth, a hynny'n uniongyrchol yn y sectorau yr effeithir arnynt (trafnidiaeth, lletygarwch, adloniant ac ati yn yr achos hwn) ac yn anuniongyrchol, drwy gadwyni cyflenwi rhanbarthol a chyflogau.

Mae'r tablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru wedi'u rhoi at ei gilydd a'u cyhoeddi gan Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd ers 25 mlynedd, gan ymdebygu i ddulliau cyfrifyddu economaidd a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer y DU, gan Lywodraeth yr Alban ac yn ddiwethaf yng Ngogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi'r tablau Mewnbwn-Allbwn swyddogol cyntaf (er mai arbrofol yw hynny) ar gyfer Cymru, ond nid ydynt wedi cael eu sicrhau ar gyfer yr adroddiad hwn (gweler Adran 2). Mae Tablau Mewnbwn-Allbwn wedi'u defnyddio i raddau helaeth ar gyfer effaith economaidd, polisi, a dadansoddi gwerthusol gan ystod eang o gyrff cyhoeddus, trydydd sector a phreifat mewn sawl gwlad. Fel rhan o brosiect Prifysgol Caerdydd, mae'r Tablau Mewnbwn-Allbwn wedi'u hymestyn dro ar ôl tro er mwyn adlewyrchu gwariant ymwelwyr yn well (nad ydynt yn effeithio ar un sector, ond ar sawl rhan o'r economi ranbarthol).

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar adroddiad blaenorol Llywodraeth Cymru/Prifysgol Caerdydd a wnaeth asesu'r effaith debygol ar set is o gyfraddau (£1.25 / £0.75) ond roedd y rhain yn gymwys i'r holl oedolion a phlant mewn llety masnachol. Yn hynny o beth, nid ydym yn ailadrodd y disgrifiadau methodolegol a data a gafodd eu cynnwys yn yr

[1]Gweler https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/151984/
[2]Mae 'sioc' economaidd yn cyfeirio at unrhyw newid i newidynnau economaidd sylfaenol neu gydberthnasau sy'n cael effaith sylweddol ar ganlyniadau economaidd a mesurau perfformiad economaidd, fel cyflogaeth neu werth ychwanegol.

adroddiad hwnnw[3]. **Tybiwn fod yr holl ddarllenwyr yn gyfarwydd â'r Adrannau o'r adroddiad hwnnw sy'n ymdrin â data a dull ac efelychiadau a chafeatau cysylltiedig.** Nodwn, fodd bynnag, fod yr adroddiad blaenorol wedi'i gyflawni gan ddefnyddio strwythurau data sydd i ryw raddau yn eiddo i Brifysgol Caerdydd a heb eu cyhoeddi. **Felly, ni ellir cymharu'r canlyniadau yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol â'r rhai a gyflwynwyd yn adroddiad 2024.**

Mae Adran 2 sy'n dilyn yn disgrifio sut rydym yn diweddaru ein dadansoddiad i ymgorffori cyfraddau ac eithriadau'r Ardoll newydd, a'r materion y dylid eu cadw mewn cof wrth ystyried ein hailamcangyfrif.

Yna, mae Adran 3 yn amcangyfrif effaith yr opsiynau cyfraddau a awgrymir ar yr economi gyfan, gan dybio bod busnesau yn diystyru'r Ardoll yn llawn. Yn y cyfamser, mae Adran 4 yn ymgymryd â'r dadansoddiad hwn o dan y dybiaeth fod busnesau yn amsugno cost yr Ardoll yn llawn ac mae Adran 5 yn dod i gasgliadau.

[3]Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/effeithiau-posibl-ardoll-ymwelwyr-yng-nghymru-ar-yr-economi-a-nwyon-ty-gwydr

# 2 Ein Dadansoddiad Diwygiedig

## *2.1 I grynhoi*

Mae cyfyngiadau ar amser a mynediad i saernïaeth data (data architectures)[4] yn golygu nad oes modd cymharu ac ail weithio asesiad o effaith 2024 yn llawn nac yn llwyr. Byddai dadansoddiad mwy cyflawn a phynciol yn cynnwys data diweddarach ar wariant fesul taith a phen (e.e., o rifynnau diweddarach o *The UK Tourist, Travel Trends* ac arolygon eraill). Byddai hefyd yn ffafriol asesu effaith yr Ardoll gan ddefnyddio Tablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025[5]. Fodd bynnag, byddai'r dull hwn yn golygu ail-weithio'r broses wreiddiol o goladu data, modelu o egwyddorion cyntaf, ac ad-drefnu'r data gwariant i gyfateb i strwythur diwydiant Tablau Mewnbwn-Allbwn newydd Llywodraeth Cymru, sy'n golygu y byddai ymdrech ymchwil ychwanegol yn cael ei defnyddio i ailstrwythuro'r Tablau.

Gwnaethom felly fabwysiadu dull hybrid o ddiweddaru'r canlyniadau a gafwyd yn yr adroddiad gwreiddiol i adlewyrchu'r cyfraddau a'r eithriadau newydd, gan ddefnyddio'r elfennau o dablau mewnbwn-allbwn Prifysgol Caerdydd sydd ar gael yn gyhoeddus i ailadrodd y dull blaenorol cyn belled ag y bo'n ymarferol:

1. Gyda chymorth cydweithwyr twristiaeth Llywodraeth Cymru, gwnaethom asesu cyfran y nosweithiau a dreuliwyd gan ymwelwyr a oedd yn blant a phobl ifanc[6] (dan 16 oed yma) mewn llety band is yng Nghymru er mwyn dod i amcangyfrif nosweithiau perthnasol i VL2 (ar gyfer 2019), ac amcangyfrif o'r derbyniadau treth (yn £2019; gweler Adran 2.2). Mae'r amcangyfrif ymwelwyr o fewn cwmpas hwn ryw 440,000 yn is nag ydyw ar gyfer adroddiad 2024,
2. Gwnaethom osod y cynnydd mewn cyfraddau Ardoll (wedi'u gostwng i £2019 o £2023) i'n hamcangyfrif diwygiedig o wariant fesul taith i asesu'r newid canrannol yng nghostau teithiau sydd ymhlyg â'r dull newydd, a wahaniaethwyd gan ymwelwyr domestig y DU sy'n aros mewn llety Band Safonol ac Is, ac ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol (y tybir mai ymwelwyr Band Safonol ydynt, gan nad oes unrhyw ddata uniongyrchol ar gael),
3. Yna, amcangyfrifwyd newid yn ymddygiad defnyddwyr (gostyngiadau mewn galw) ar gyfer pob un o'r tri math yma o ymwelwyr ar sail y cyfraddau elastigedd isel, canolig ac uchel (felly senarios optimistaidd, niwtral a phesimistaidd) a gymerwyd o astudiaeth Alma Economics, a gostyngiadau cyfunol mewn gwariant ymwelwyr cyffredinol,

[4] e.e. dadgyfuno'r sector lletygarwch yn Nhablau Mewnbwn-Allbwn Prifysgol Caerdydd i raddau llawnach.
[5] https://www.llyw.cymru/tablau-cyflenwad-defnydd-thablau-mewnbwn-allbwn-2019
[6]

4. Gwnaethom osod y newidiadau amcangyfrifedig mewn gwariant cyfunol gan ddefnyddwyr i gyfanswm gwariant gan ymwelwyr Cymru (yn ôl math o ymwelwyr) er mwyn creu sioc mewn galw yn Nhablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru Ysgol Fusnes Caerdydd[7] i gyrraedd amcangyfrifon cyfannol (diwydiant cyfan, ledled Cymru) o newidiadau gros mewn allbwn, gwerth ychwanegol, cyflogaeth ac ati.
5. Gan ddefnyddio'r tablau mewnbwn-allbwn mewn ffordd debyg, aseswn y newidiadau amcangyfrifedig mewn canlyniadau economaidd yn dilyn yr ailwariant (llai TAW) o'r incwm Ardoll newydd (gan dybio bod 50% yn refeniw a 50% yn gyllid cyfalaf),
6. Rydym yn ail-amcangyfrif yr effeithiau ar fusnesau lletygarwch a'r economi ar raddfa ehangach o'r senario 'amsugno 100% o'r Ardoll' ar wahân,
7. Atchwyddwn yr holl ganlyniadau i £2023 (er mwyn cadw'n gyson â'r astudiaeth wreiddiol) a chyflwyno adroddiad arnynt.

**Noder bod modd canfod yr holl ddata a gwybodaeth fethodolegol eraill yn Adroddiad Llywodraeth Cymru/Prifysgol Caerdydd 2024[8]**

## *2.2 Amcangyfrif Ymweliadau gan Blant i Lety Band Is*

Nid yw arolygon ymwelwyr craidd i Gymru[9] yn rhoi gwybod am niferoedd y plant ar ymweliadau, ond mae rhywfaint o wybodaeth ar gael am faint y grwpiau, ac a oedd grwpiau taith yn cynnwys unrhyw blant. Felly, cyfunwn wybodaeth o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr gydag amcangyfrifon o faint y grwpiau a niferoedd y plant fesul grŵp yn *Pitching the Value 2024; Economic Benefit Report: Holiday Parks and Campsites Wales*[10] a gyhoeddwyd gan yr UK Camping and Caravanning Alliance – roedd hyn yn cael ei drin yn gyfwerth â llety Band Is, ac felly cafodd ei eithrio o'r ardoll.

Mae'r dull fel a ganlyn:

1. Cwestiynwyd Great British Tourism Survey: Overnight Trips er mwyn cadarnhau cyfrannau grwpiau teithiau i safleoedd gwersylla a charafanio a oedd yn cynnwys plant, gan gyfuno data o 2022, 2023 a 2024 er mwyn amcangyfrif y gyfran gyfartalog o grwpiau gyda phlant (46%) a heb blant (54%),

2. Darparodd adroddiad UKCCA amcangyfrif ar gyfer 2024 o'r nifer gyfartalog o blant a oedd yn cynnwys grwpiau taith perthnasol lle roedd unrhyw blant o gwbl yn bresennol (1.8),

[7]Modelwyd yn null nodweddiadol Leontief-gwrthgyfartal gan gyflwyno canlyniadau Math 2: gweler https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/151984/
[8] https://www.llyw.cymru/effeithiau-posibl-ardoll-ymwelwyr-yng-nghymru-ar-yr-economi-a-nwyon-ty-gwydr
[9]Yr unig ymwelwyr perthnasol yma yw ymwelwyr domestig Prydain Fawr gan ein bod yn tybio y bydd ymwelwyr rhyngwladol yn lletya mewn llety Band Safonol.
[10]https://www.ukcca.org.uk/media/yhhh1nfk/ukcca-wales-report-2024.pdf

3. Gan dybio bod pob grŵp gyda phlant yn cynnwys dau oedolyn ar gyfartaledd sy'n caniatáu i ni gymhwyso cyfran UKCCA at gyfrannau cyfunol tair blynedd GBTS o fath o grŵp er mwyn amcangyfrif fod 22% o ymweliadau â llety Band Is (safleoedd gwersylla a charafanio yma) gan blant,
4. Caiff y gyfran hon ei chymhwyso i'r cyfanswm ymweliadau Band Is gan Dwristiaid Prydain a amcangyfrifwyd yn 2019 i ddarparu asesiad o gyfanswm yr ymweliadau gan blant lle mae'r ardoll wedi'i heithrio; cyfraddau cymryd Ardoll cymharol is; ymatebion am ymddygiad ymwelwyr; ac effeithiau economaidd deilliannol.

# 3 Effaith Cyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr ar yr Economi – trosglwyddo 100% o'r Ardoll

## *3.1 Mesur y Sioc mewn Galw*

Os tybir y bydd rhywfaint o'r Ardoll Ymwelwyr (neu'r cyfan) yn cael ei throsglwyddo i gwsmeriaid, bydd defnyddwyr llety masnachol yn gweld cynnydd yng nghost eu llety, ac o ganlyniad yng nghost eu taith gyfan. Gan dybio y bydd cromlin y galw cyfunol am dwristiaeth yn goleddu am i lawr, mae hyn yn awgrymu y bydd llai o bobl yn ymweld â Chymru – neu efallai y bydd yr un nifer yn ymweld ond am gyfnod byrrach ar gyfartaledd. Tybiwn yma fod busnesau'n trosglwyddo 100% o'r Ardoll. Mae'r broses fesur fel y mae wedi'i hamlinellu yn Nhabl 1 isod – gan ddefnyddio ein canlyniad niwtral, a chyfraddau o £1.30/£0.75 fel yr enghraifft.

*Tabl1 Newid Canrannol yn y Galw gan Ymwelwyr (Niwtral)*

| £2019 | Ymwelwyr sy'n preswylio yn y DU (Band Safonol) | Ymwelwyr sy'n preswylio yn y DU (Band Is) | Ymwelwyr o dramor (Safonol) |
|---|---|---|---|
| Gwariant fesul taith ar gyfartaledd | £230 | £172 | £258 |
| Nosweithiau gwely perthnasol fesul taith ar gyfartaledd | 3.21 | 2.53 | 7.09 |
| Ardoll Ymwelwyr Fesul Taith: | £4.18 | £1.48 | £9.22 |
| Fel % o gost taith | 1.8% | 0.9% | 3.6% |
| b Elastigedd | -0.74 | | |
| Newid canrannol yn y galw gan ddefnyddwyr (a x b) | -1.3% | -0.6% | -2.6% |

*Noder: tybir bod yr holl ymwelwyr sy'n cyrraedd o dramor sy'n defnyddio llety masnachol yn y Band Safonol ac rydym ond yn gallu asesu gwariant o fewn y DU fel y llinell sylfaen.*

Mae sawl mater i'w nodi yn ystod y broses hon. I ddechrau, rydym yn priodoli effaith yr ardoll fel canran o gyfanswm costau'r daith (fel yr adroddwyd yn GBTS 2019 ar gyfer ymwelwyr y DU, ac fel yr awgrymir yn Travel Trends 2019 ar gyfer ymwelwyr o dramor), nid fel canran o gostau llety. Mae hyn oherwydd bod y daith i ymwelwyr i Gymru (neu yng Nghymru) yn gynnyrch 'cyfansawdd' - ni all y llety ar ei ben ei hun ddarparu buddiannau'r daith yn annibynnol ar nwyddau adloniadol (neu fusnes), teithio, bwyd a nwyddau eraill a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymweliad[11].

[11]Noder bod sail dystiolaeth Alma Economics hefyd yn gysylltiedig â newidiadau i brisiau nwyddau a gwasanaethau twristiaeth yn fwy cyffredinol. Noder hefyd bod ein dadansoddi elastigedd a llinell sylfaen defnydd (mewn perthynas â chost y daith a chanran yr ardoll ddeilliannol) ond yn ymwneud ag ymwelwyr y DU gan ddefnyddio llety o fewn cwmpas yr ardal, nid y rhai mewn llety wedi'i eithrio - er enghraifft, aros yn eu hail gartrefi neu gyda ffrindiau. Unwaith eto, defnyddir data o'r GBTS i asesu'r ganran hon. Ni chaiff y

**Noder bod gwariannau a adroddwyd ar gyfer ymwelwyr o dramor yn isel o gymharu â'r amser treulio yng Nghymru. Mae hyn oherwydd bod yr unig ffynhonnell ddata, Travel Trends SYG, ar gyfer 'o fewn cyrchfan' (h.y., o fewn y DU), ac nid ydynt yn cynnwys costau nad ydynt yn gostau'r DU, gan gynnwys teithio ar awyren. Yr effaith na ellir ei hosgoi yw y byddwn yn goramcangyfrif y gostyngiad mewn ymweliadau rhyngwladol i Gymru ar ôl yr Ardoll yn sylweddol. Bydd hyn yn cael effaith gymharol besimistaidd ar ein gwaith o adrodd ar effeithiau economaidd cyffredinol.**

Yna, caiff y newidiadau canrannol mewn galw deilliannol yn y broses a ddisgrifiwyd yn Nhabl 1 eu cymhwyso i wariant y llinell sylfaen yn 2019 gan ymwelwyr y DU gan ddefnyddio llety ym mhob Band, a chan ymwelwyr o dramor. Mae hyn yn darparu amcangyfrif o'r colledion yn y galw gan ymwelwyr gan fod llai o deithiau yn mynd i Gymru/yng Nghymru ar ôl i'r prisiau godi. Fel y mae Tabl 2 yn dangos, byddwn yn amcangyfrif mai'r gostyngiad hwn mewn galw am ddefnydd yw £43.7m (prisiau 2023) ar gyfer ein senario pesimistaidd. Fodd bynnag, nid dyma ddiwedd y stori. Mae pob noson gwely yng Nghymru bellach yn arwain at refeniw Ardoll ychwanegol – yr amcangyfrifwyd mai £39.4m (prisiau 2023) ydyw.

*Tabl 2 Mesur y Newid mewn Galw gan Ymwelwyr (Niwtral)*

| £2019 | Ymwelwyr sy'n preswylio yn y DU (Llety Band 1) | Ymwelwyr sy'n preswylio yn y DU (Llety Band 2) | Ymwelwyr o dramor | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Llinell Sylfaen gan Ymwelwyr Perthnasol | £1,624m | £83.5m | £515m | £2,223m |
| Y newid canrannol mewn galw | -1.3% | -0.6% | -2.6% | -1.6% |
| Gwariant Ardoll Ymwelwyr fesul taith | £1,602m | £82.9m | £501m | £2,187m |
| Colledion Gros (uniongyrchol) o ran Gwariant yn ystod Teithiau £2019 | -£21.8m | -£0.6m | -£13.6m | -£36.0m |
| Colledion Gros (uniongyrchol) o ran Gwariant yn ystod Teithiau £2023 (wedi'u hatchwyddo) | -£26.4m | -£0.7m | -£16.5m | -£43.7m |
| Nosweithiau gwely ar ôl cyflwyno'r ardoll (miliwn) | 22.37 | 1.56 | 7.06 | 30.99 |
| Refeniw o'r Ardoll Ymwelwyr £2023 (heb gynnwys TAW) | £29.1m | £1.2m | £9.2m | £39.4m |

Mae ein hamcangyfrifon o wariant gros a gollwyd a refeniw cyhoeddus a gafwyd yn sgil yr Ardoll yn ddadlennol, ond nid ydynt yn cynrychioli'r effaith economaidd ranbarthol. Mae hyn am sawl rheswm.

wybodaeth berthnasol ei darparu yn Travel Trends/International Passenger Survey ar gyfer ymwelwyr sy'n dod i mewn i ranbarthau'r DU, felly mae canran y DU yn cael ei chymhwyso i Gymru yma.

- Mae colledion gros o ran gwariant ymwelwyr yn cynnwys TAW a thollau eraill ar wariant twristiaid a ddaeth i lywodraeth y DU ac nad oeddent yn effeithio, felly, ar yr economi ranbarthol cyn cyflwyno'r Ardoll.
- Ni fyddai rhywfaint o wariant yn ystod teithiau yn digwydd yng Nghymru (e.e., ar deithio) ac, felly, ni fyddai Cymru yn colli'r gwariant hwnnw pe na bai'r daith yn digwydd.
- Ceir effeithiau 'lluosydd' ychwanegol ar hyd cadwyni cyflenwi ac oherwydd effeithiau cyflogau; mae'r rhain ar goll yn llwyr yn Nhabl 2.

I fod yn glir: **rhaid trosi'r effeithiau defnydd a refeniw hyn yn effeithiau economaidd rhanbarthol, y maent yn gysylltiedig yn achosol, ond yn wahanol o ran cysyniad, daearyddiaeth ac effaith.** Dibynnwn ar hyn ar gyfer Tablau Mewnbwn-Allbwn Prifysgol Caerdydd ar gyfer Cymru. Rhoddir gwybod am yr effeithiau hyn isod.

## *3.2 Effeithiau ar Economi Cymru*

Caiff y gwariant llinell sylfaen ar gyfer pob math o ymwelwyr a adroddwyd yn Nhabl 2 ei newid i ddileu TAW a gwariant nad yw'n rhanbarthol. Yna, caiff y ffigur deilliannol ei luosi gan y newid canrannol cysylltiedig ag Ardoll yn y galw gan ddefnyddwyr (ar wahân ar gyfer preswylydd Prydain Fawr Safonol, preswylydd Prydain Fawr Is, ac ymwelwyr o dramor) er mwyn amcangyfrif y gostyngiad perthnasol yn y galw economaidd rhanbarthol ar gyfer y DU (yn gyfunol[12]) ac ymwelwyr tramor. Yna, byddwn yn asesu'r effaith ar economi ymwelwyr Cymru gan ddefnyddio senarios optimistaidd, niwtral a phesimistaidd (Tabl 3).

*Tabl3 Y Tri Senario*

| *Senario* | *Elastigedd* | *Ffynhonnell* |
|---|---|---|
| Optimistaidd | -0.38 | Canolrif trydydd isaf elastigion Alma |
| Niwtral | -0.74 | Canolrif holl elastigion perthnasol Alma |
| Pesimistaidd | -1.12 | Canolrif trydydd uchaf elastigion Alma |

Caiff y tair tybiaeth elastigedd hyn eu cymhwyso i'r setiau cyfraddau o £1.30/£0.75 a £2.00/£1.00, gan arwain at chwe senario. Yna caiff y gostyngiadau deilliannol i wariant eu tynnu o'r galw economaidd yng Nghymru, yn deillio o ymwelwyr o Brydain Fawr (gan gynnwys rhai sy'n preswylio yng Nghymru) ac o dramor, gan ei adael yn is yn y ddau achos. Mae hyn yn arwain at ostyngiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i allbwn, incwm, gwerth ychwanegol a derbyniadau o ardollau (heb Ardoll) ar draws economi Cymru.

[12]Mae hyn yn angenrheidiol gan nad oes gan y Tablau Mewnbwn-Allbwn fectorau galw ar wahân ar gyfer ymwelwyr llety Band 1 a Band 2, ond gallwn amcangyfrif gwariant gros ar gyfer pob un.

Pe bai Ardoll Ymwelwyr yn arwain at brisiau uwch ar gyfer llety, byddai'n arwain at lai o incwm busnes a gweithgarwch economaidd, ond hefyd at weithgarwch economaidd deilliannol newydd gan y byddai awdurdodau lleol yn ail-wario'r refeniw o'r Ardoll newydd - boed hynny'n uniongyrchol ar gefnogi twristiaeth neu ar set ehangach o weithgareddau. Mewn Tablau Mewnbwn-Allbwn, gallwn asesu'r buddiannau uniongyrchol a lluosydd o'r gwariant hwn mewn ffordd gysyniadol debyg i asesu'r colledion potensial a ddisgrifiwyd uchod. Gall y fath asesiad fod yn ddangosol yn unig, gan nad ydym yn gwybod pa weithgareddau neu seilweithiau a allai gael eu cefnogi gan wariant cyhoeddus sy'n deillio o ardollau – ac yn wir, a fyddai hyn yn digwydd yn y flwyddyn neu yn ystod y blynyddoedd ariannol ar ôl cronni incwm yr ardoll.

Fodd bynnag, mae'r adran hon yn darparu enghraifft ddangosol o sut byddai gwariant cyhoeddus newydd yn mynd ati i wrthbwyso – yn rhannol – y colledion i'r economi twristiaeth yn dilyn gostyngiadau mewn gwariant ymwelwyr. Byddai Ardoll yn cynnwys trosglwyddiad uniongyrchol, byrdymor o refeniw o'r sector preifat i gyhoeddus, er y byddai disgwyl i'r refeniw o'r Ardoll fod o fudd i fusnesau Cymru yn y tymor hwy pe bai incwm o'r dreth yn cael ei ddefnyddio i gefnogi set fwy gwydn, cynaliadwy a gwerth uwch o weithgareddau i ymwelwyr[13].

Ni allwn wybod manylion gwariant cyhoeddus sy'n deillio o Ardollau. Ac felly, er mwyn galluogi ein dadansoddiad dangosol, rydym yn gwneud y tybiaethau canlynol.

1. Gan fod modd codi TAW ar incwm o Ardoll (a dybir yma), dim ond y gweddill sydd ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru ei wario, gyda'r elfen TAW yn cael ei thalu amdani gan fusnesau/ymwelwyr, ond 'yn cael ei gollwng' o Gymru ac felly nid yw ar gael i Awdurdodau Lleol at ddibenion gwariant.
2. Caiff yr holl incwm o Ardoll ei wario yn ystod yr un flwyddyn â'r croniad ohono (yn dilyn trawsnewidiadau perthnasol a diystyru elfennau nad ydynt yn rhanbarthol).
3. Caiff hanner y refeniw ei wario ar gynnal neu ehangu gwasanaethau presennol, hanner ar seilwaith neu ddatblygiadau cyfalaf.
4. Mae'r patrwm gwariant (o ran nwyddau) 'cyfredol' yn dilyn patrwm gwriant y sector cyhoeddus fel yr adroddir yn y Tablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru 2019.
5. Caiff elfennau cyfalaf eu modelu yn dilyn y patrwm gwario ar gyfer Ffurfiant Cyfalaf Sefydlog Gros (GFCF) fel yr adroddir yn y Tablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru 2019.

Mae'n werth nodi bod gwariant cyfalaf (GFCF) yn arwain at ollyngiad economaidd lefel uwch o Gymru (fesul £1m o wariant) gyda bach iawn o gyflenwyr 'Haen 1'[14] mewn sectorau

[13] Nid yw'n bosibl modelu yma.
[14] Y cyflenwyr 'rownd gyntaf' allweddol sy'n gwneud cais uniongyrchol am gontractau mawr, yna is-gontractio ymhellach.

perthnasol a chanddynt bencadlys yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'n bosibl y gall awdurdodau lleol unigol wario canran is o incwm Ardoll ar wariant cyfalaf, yn enwedig ar gyfer 'potiau' llai o faint. Byddai gwariant uwch ar refeniw yn hytrach na phrosiectau cyfalaf (o dan ein dull modelu) yn cynyddu'r effaith ar yr economi leol[15] ond ystyriwn fod rhaniad o 50:50 yn rhesymol yn absenoldeb unrhyw ddata o arolygon neu ddata eraill – lle y bydd rhywfaint o gyllid o Ardollau yn debygol o fod yn sylweddol, hyd yn oed ar lefel UA.

Rhoddir gwybod am y colledion i'r economi ymwelwyr, enillion gwariant Ardoll ac effeithiau net isod.

## 3.3 Ardoll ar £1.30 / £0.75

### 3.3.1 Colledion cysylltiedig â'r economi ymwelwyr

Mae colledion cysylltiedig â gwariant Taith cysylltiedig ag ardoll ymwelwyr ledled yr economi yn allbwn economaidd Cymru (yn nhermau 2023) yn amrywio o amcangyfrif o -£16.6m yn y senario mwyaf optimistaidd, i -£49m yn y senario mwyaf pesimistaidd (Tabl 4). Mae'r gostyngiad hwn mewn galw yn codi yn bennaf o fusnesau sy'n gwasanaethu ymwelwyr yn uniongyrchol h.y., ym maes lletygarwch a thrafnidiaeth gan mwyaf ond mae hefyd yn cynnwys ar hyd eu cadwyni cyflenwi a thrwy effeithiau ysgogedig ar incwm oherwydd bydd angen llai o unedau llafur rhanbarthol, deunyddiau crai a mewnbynnau canolradd ar y busnesau hynny yn eu tro.

Mae gan y gostyngiad hwn mewn gweithgarwch economaidd oblygiadau i gyfansymiau economaidd eraill (a phwysicach). Amcangyfrifwyd bod cyfanswm y golled (uniongyrchol ac anuniongyrchol) i Werth Ychwanegol Gros yn yr ystod -£9.4m i -£27.6m tra byddai'r cyfanswm incwm gwario yn cwympo rhwng -£4.4m a -£13m yn dibynnu ar yr elastigedd a dybir.

[15] Er enghraifft, pe byddem yn defnyddio tybiaeth '100% o gymorth refeniw, byddai effeithiau cyflogaeth yn cynyddu rhyw 40% ym mhob achos.

*Tabl 4 Colledion cysylltiedig â Gwariant Ymwelwyr Economi Gyfan Flynyddol yn sgil Cyflwyno Ardoll Ymwelwyr (£1.30 / £0.75)*

| *Yr holl Golledion Uniongyrchol + Anuniongyrchol, £2023m* | *Optimistaidd* | *Niwtral* | *Pesimistaidd* |
|---|---|---|---|
| Allbwn | -£16.6 | -£32.3 | -£48.9 |
| Incwm Gwario | -£4.4 | -£8.6 | -£13.0 |
| Gwarged Gweithredu Gros | -£3.2 | -£6.2 | -£9.3 |
| Treth Incwm a Hunangyflogaeth, Pensiynau | -£1.4 | -£2.8 | -£4.2 |
| Trethi Llai Cymorthdaliadau ar Gynhyrchiant | -£0.4 | -£0.7 | -£1.1 |
| Gwerth Ychwanegol Gros | -£9.4 | -£18.2 | -£27.6 |
| *Canran fras gwerth Ychwanegol Gros Economi Cymru* | *0.0011%* | *0.0023%* | *0.0034%* |
| Cyfwerth â Chyflogaeth Lawn Amser | -255 | -500 | -755 |
| *Canran Gweithlu Cymru yn fras* | *0.018%* | *0.036%* | *0.054%* |

Noder: Ni fydd yn gwneud cyfanswm yn sgil talgrynnu ar wahân

Er y caiff yr effeithiau hyn eu teimlo ym mhob rhan o'r economi gyfan, mae'r crynodiad o wariant gan ymwelwyr mewn nifer bach o ddiwydiannau dwys o ran llafur yn golygu y bydd yr effeithiau ar gyflogaeth rywfaint yn fwy nag y byddant ar gyfansymiau economaidd ariannol. Byddai colledion gros o ran cyflogaeth o ganlyniad i gyflwyno'r Ardoll yn amrywio o -255 o swyddi CALl i -755 o swyddi CALl ym mhob rhan o'r economi yn ein senarios.

Ar gyfer y senario Niwtral, amcangyfrifwn y byddai oddeutu 500 o swyddi'r gweithlu cyfwerth ag amser llawn[16] yn cael eu colli yn dilyn cyflwyno'r ardoll ymwelwyr. Mae hyn yn gyfwerth â rhyw 0.036% o weithlu rhanbarthol Cymru 2019, ond dim ond amcangyfrif o 0.023% o'r cyfanswm rhanbarthol yw'r colledion gwerth ychwanegol gros.

Fel y mae Tabl 5 yn dangos, yn yr achos Niwtal[17], byddai rhyw 355 o swyddi CALl (neu tua 70%) o'r colledion hyn yn digwydd mewn gwasanaethau llety a bwyd, a 50 o swyddi CALl eraill (10%) yn y sector adwerthu a chyfanwerthu.

[16]Gan gynnwys hunangyflogedig.
[17]Gall cyfansymiau'r diwydiant gael eu graddio'n llinellol gan gyfansymiau CALl i amcangyfrif colledion yn y senarios Optimistaidd a Phesimistaidd.

*Tabl 5 Effeithiau Cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar Gyflogaeth (£1.30 / £0.75)*

| *Gweithlu cyfwerth ag amser llawn* | Ymwelwyr o'r DU | Ymwelwyr o Dramor | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Diwydiannau Sylfaenol | * | * | * |
| Gweithgynhyrchu | * | * | -10 |
| Cyfleustodau ac Adeiladu | * | * | -10 |
| Cyfanwerthu ac Adwerthu | -45 | * | -50 |
| Gwasanaethau trafnidiaeth | * | * | -10 |
| Gwasanaethau Llety a Bwyd | -280 | -70 | -355 |
| Gwasanaethau Preifat Eraill | -20 | * | -30 |
| Y Sector Cyhoeddus ac eraill | -30 | * | -30 |
| **Pob Sector** | -400 | -90 | -500 |

*wedi'u hatal am fod y colledion yn llai na 10 CALl. Wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Ni fydd yn gwneud cyfanswm yn sgil talgrynnu annibynnol.

### 3.3.2 Effeithiau Cyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr ar Refeniw Gwario'r Sector Cyhoeddus

Ar ôl cyfrifo am TAW a gollyngiadau o'r refeniw Ardollau y manylir arnynt yn Nhabl 2, byddai gwariant cyhoeddus newydd yn deillio o hynny, yn y senario Niwtral, a hynny mewn cynnydd o £36m mewn Allbwn yng Nghymru (effeithiau uniongyrchol a lluosydd). Yn yr un modd â gostyngiadau o ganlyniad i Ardollau mewn allbwn economaidd, byddai cynnydd mewn gwariant sector cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag incwm Ardollau yn effeithio ar elfennau gwerth ychwanegol economaidd eraill fel incwm ac elw. Caiff yr effeithiau cadarnhaol hyn eu hamcangyfrif yn Nhabl 6[18], gan wneud cyfanswm o ryw £20.3m mewn GYG.

Byddai gwariant cyfredol a chyfalaf ychwanegol o ganlyniad i ail-wariant yr Ardoll Ymwelwyr yn cynnal rhyw 355 o swyddi CALl ym mhob rhan o Gymru. Byddai gwaith yn cael ei greu, a hynny yn y sector cyhoeddus yn bennaf, ac mewn gweithgareddau adeiladu hefyd. Noder y diffyg amrywiaeth yn yr effaith economaidd o ganlyniad i wariant cyhoeddus y rhoddwyd gwybod amdano yn y tri senario. Mae hyn yn digwydd oherwydd codir yr Ardoll ar *bob* noson i ymwelwyr sy'n aros yng Nghymru, ac mae'r llinell sylfaen hon yn symud yn gymedrol iawn, hyd yn oed yn y senario mwyaf pesimistaidd. Mae effeithiau ar gyflogaeth a GYG yr un peth fwy neu lai, gan fod swyddi sy'n dibynnu ar wariant cyhoeddus ar lefel cynhyrchiant Cymru ar gyfartaledd.

[18] Yma, anwybyddwn y colledion i refeniw'r sector cyhoeddus fel cyfraddau busnes a derbyniadau treth rhanbarthol yn dilyn gostyngiad cysylltiedig ag Ardollau mewn gweithgarwch economaidd. Bydd y colledion hyn yn fach iawn (llawer llai na £1m).

*Tabl 6 Amcangyfrif Effaith Flynyddol Gwariant Cyhoeddus o Ganlyniad i Ardollau ar yr Economi Gyfan (£1.30 / £0.75)*

| *Yr holl Golledion Uniongyrchol + Anuniongyrchol, £2023m* | *Optimistaidd* | *Niwtral* | *Pesimistaidd* |
|---|---|---|---|
| Allbwn | £36.2 | £35.9 | £35.6 |
| Incwm Gwario | £9.7 | £9.6 | £9.5 |
| Gwarged Gweithredu Gros | £6.1 | £6.1 | £6.0 |
| Treth Incwm a Hunangyflogaeth, Pensiynau | £4.4 | £4.4 | £4.3 |
| Trethi Llai Cymorthdaliadau ar Gynhyrchiant | £0.2 | £0.2 | £0.2 |
| Gwerth Ychwanegol Gros | £20.5 | £20.3 | £20.1 |
| *Canran fras gwerth Ychwanegol Gros Economi Cymru* | *0.025%* | *0.025%* | *0.025%* |
| Cyfwerth â Chyflogaeth Lawn Amser | 360 | 355 | 350 |
| *Canran Gweithlu Cymru yn fras* | *0.025%* | *0.025%* | *0.025%* |

### *3.3.3 Effaith Glir yr Ardoll Ymwelwyr ar yr Economi a Busnes (£1.30 / £0.75)*

Mae 'netio' cynnydd mewn gweithgarwch economaidd rhanbarthol o wariant cyhoeddus o ganlyniad i gyflwyno'r Ardoll o golledion yn yr economi ymwelwyr yn awgrymu y bydd colledion cyffredinol mân – yn amrywio o +£11.1m i -£7.5m o GYG y flwyddyn ar draws y senarios (ym mhrisiau 2023). Mae newidiadau net mewn cyflogaeth yn amrywio rhwng +100CALI yn y senario optimistaidd, i oddeutu 400 o golledion swyddi CALI yn y senario mwyaf pesimistaidd. Mae'r olaf yn cynnwys rhyw 0.028% o gyflogaeth CALI blynyddol Cymru, gyda'r nifer hwn yn uwch na'r nifer ar gyfer metrigau ariannol (llai na 0.01% o golledion) oherwydd dwyster llafur y gweithgareddau Twristiaeth sy'n berthnasol i'r economi ehangach (Tabl 7).

*Tabl 7 Amcangyfrif Effaith Flynyddol Net Gwariant Sector Cyhoeddus o Ganlyniad i Gyflwyno Ardoll ar yr Economi Gyfan (£1.30 / £0.75)*

| *Yr holl Golledion Uniongyrchol + Anuniongyrchol, £2023m* | *Optimistaidd* | *Niwtral* | *Pesimistaidd* |
|---|---|---|---|
| Allbwn | £19.7 | £3.6 | -£13.3 |
| Incwm Gwario | £5.3 | £1.1 | -£3.5 |
| Gwarged Gweithredu Gros | £3.0 | -£0.1 | -£3.3 |
| Treth Incwm a Hunangyflogaeth, Pensiynau | £3.0 | £1.6 | £0.1 |
| Trethi Llai Cymorthdaliadau ar Gynhyrchiant | -£0.2 | -£0.5 | -£0.9 |
| Gwerth Ychwanegol Gros | £11.1 | £2.1 | -£7.5 |
| *Canran fras gwerth Ychwanegol Gros Economi Cymru* | *0.013%* | *0.002%* | *-0.009%* |
| Cyfwerth â Chyflogaeth Lawn Amser | 100 | -140 | -400 |
| *Canran Gweithlu Cymru yn fras* | *0.007%* | *-0.010%* | *-0.028%* |

Noder: Ni fydd Tablau 5-7 yn adio yn sgil talgrynnu ar wahân

## *3.4 Ardoll Ymwelwyr ar £2.00 / £1.00*

### *3.4.1 Colledion cysylltiedig â'r economi ymwelwyr*

Gellir ailadrodd y dadansoddiad uchod ar gyfer Ardoll o unrhyw lefel, ac yn wir ar gyfer y continwwm o dybiaethau elastigedd rhesymol. Yn yr adran hon, rydym yn cadw ein tri senario elastigedd (-0.38 / -0.74 / -1.12) ac yn ail-gynnal yr efelychiad ar gyfer y pâr cyfradd Ardoll o £2.00 a £1.00 ar gyfer y band Safonol ac Is yn y drefn honno.

Mae Tabl 8 yn awgrymu gyda'r tybiaethau newydd hyn, bod y colledion cyflogaeth yn sgil y lleihad yn niferoedd yr ymwelwyr yn uwch (nid yw hyn yn syndod), gan amrywio o golli 390 o swyddi CALl i 1,155 o swyddi CALl yn yr achosion mwyaf a lleiaf optimistaidd. Amcangyfrifir mai gwerth y Colledion mewn Gwerth Ychwanegol Gros yw £42.3m yn yr achos gwaethaf.

*Tabl 8 Colledion cysylltiedig â Gwariant Ymwelwyr Economi Gyfan Flynyddol yn sgil Cyflwyno Ardoll Ymwelwyr (£2.00 / £1.00)*

| *Yr holl Golledion Uniongyrchol + Anuniongyrchol, £2023m* | *Optimistaidd* | *Niwtral* | *Pesimistaidd* |
|---|---|---|---|
| Allbwn | -£25.4 | -£49.5 | -£74.9 |
| Incwm Gwario | -£6.7 | -£13.1 | -£19.9 |
| Gwarged Gweithredu Gros | -£4.9 | -£9.5 | -£14.3 |
| Treth Incwm a Hunangyflogaeth, Pensiynau | -£2.2 | -£4.3 | -£6.5 |
| Trethi Llai Cymorthdaliadau ar Gynhyrchiant | -£0.6 | -£1.1 | -£1.7 |
| Gwerth Ychwanegol Gros | -£14.3 | -£27.9 | -£42.3 |
| *Canran fras gwerth Ychwanegol Gros Economi Cymru* | *0.0017%* | *0.0035%* | *0.052%* |
| Cyfwerth â Chyflogaeth Lawn Amser | -390 | -765 | -1,155 |
| *Canran Gweithlu Cymru yn fras* | *0.028%* | *0.055%* | *0.083%* |

Noder: Ni fydd yn gwneud cyfanswm yn sgil talgrynnu ar wahân

### *3.4.2 Effeithiau Cyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr ar Refeniw Gwario'r Sector Cyhoeddus*

Er bod colledion yn y diwydiant twristiaeth yn fwy, mae'r cynnydd mewn refeniw Ardollau sy'n gysylltiedig â'r cyfraddau uwch yn galluogi lefel gwariant cyhoeddus sydd wedi cynyddu ymhellach. Mae'r gwariant hwn yn cefnogi rhyw 540 o swyddi CALl ac ychydig dros £30m o GYG yn y tri senario (Tabl 9).

*Tabl 9 Amcangyfrif Effaith Flynyddol Gwariant Cyhoeddus o Ganlyniad i Ardollau ar yr Economi Gyfan (£2.00 / £1.00)*

| Yr holl wariant Uniongyrchol + Anuniongyrchol, £2023 | *Optimistaidd* | *Niwtral* | *Pesimistaidd* |
|---|---|---|---|
| Allbwn | £55.2 | £54.6 | £53.8 |
| Incwm Gwario | £14.8 | £14.6 | £14.4 |
| Gwarged Gweithredu Gros | £9.3 | £9.2 | £9.1 |
| Treth Incwm a Hunangyflogaeth, Pensiynau | £6.7 | £6.7 | £6.6 |
| Trethi Llai Cymorthdaliadau ar Gynhyrchiant | £0.3 | £0.3 | £0.3 |
| Gwerth Ychwanegol Gros | £31.2 | £30.8 | £30.4 |
| *Canran fras gwerth Ychwanegol Gros Economi Cymru* | *0.038%* | *0.038%* | *0.038%* |
| Cyfwerth â Chyflogaeth Lawn Amser | 545 | 540 | 535 |
| *Canran Gweithlu Cymru yn fras* | *0.038%* | *0.038%* | *0.038%* |

### 3.4.3 Effaith Glir yr Ardoll Ymwelwyr ar yr Economi a Busnes (£2.00 / £1.00)

Yn yr un modd â'r dadansoddiad yn Adran 3.3, gallwn 'netio' y colledion a'r enillion economaidd yn sgil gostyngiadau mewn gwariant gan ymwelwyr, ac o gynnydd mewn gwariant cyhoeddus (gan dderbyn y bydd y rhain yn cael effaith mewn lleoedd, sectorau ac amserlenni gwahanol wrth gwrs).

Mae Tabl 10 yn awgrymu y byddai'r cynnydd mewn cyfraddau Ardollau yn gweld cynnydd mewn colledion swyddi mewn achosion niwtral a phesimistaidd, gyda'r rhain yn cyrraedd 620 o swyddi CALl ym mhob blwyddyn yn y senario mwyaf pesimistaidd. Mae colledion GYG net yn cyrraedd £12m y flwyddyn yn yr achos gwaethaf – Rhyw 0.015% o GYG Cymru yn 2023 (tua £80bn). Mae GYG yn cynyddu'n gymedrol yn ein senario canolog, fel y mae gyda phob effaith amcangyfrifedig. Mae hwn mor fach fel nad yw'n weladwy ar raddfa ranbarthol.

*Tabl 10 Amcangyfrif Effaith Flynyddol Net Gwariant Sector Cyhoeddus o Ganlyniad i Gyflwyno Ardoll ar yr Economi Gyfan (£2.00 / £1.00)*

| Yr holl wariant Uniongyrchol + Anuniongyrchol, £2023 | *Optimistaidd* | *Niwtral* | *Pesimistaidd* |
|---|---|---|---|
| Allbwn | £29.8 | £5.1 | -£21.1 |
| Incwm Gwario | £8.1 | £1.5 | -£5.4 |
| Gwarged Gweithredu Gros | £4.5 | -£0.2 | -£5.2 |
| Treth Incwm a Hunangyflogaeth, Pensiynau | £4.5 | £2.4 | £0.1 |
| Trethi Llai Cymorthdaliadau ar Gynhyrchiant | -£0.3 | -£0.8 | -£1.4 |
| Gwerth Ychwanegol Gros | £16.9 | £2.9 | -£11.9 |
| *Canran fras gwerth Ychwanegol Gros Economi Cymru* | *0.020%* | *0.003%* | *-0.015%* |
| Cyfwerth â Chyflogaeth Lawn Amser | 155 | -225 | -620 |
| *Canran Gweithlu Cymru yn fras* | *0.011%* | *-0.014%* | *-0.044%* |

Noder: Ni fydd Tablau 8-10 yn adio yn sgil talgrynnu ar wahân

# 4 Effaith Economaidd Ardoll Ymwelwyr – Amsugnwyd gan Fusnes

## *4.1 Mesur y Sioc Busnes Uniongyrchol: Ardoll ar £1.30 / £0.75*

Ein tybiaeth yn y senario amgen hwn yw bod busnesau llety nad ydynt yn trosglwyddo unrhyw ran o gost yr Ardoll Ymwelwyr yn golygu nad oes unrhyw newid i gyfanswm lefel yr ymweliadau â Chymru. **Noder hefyd bod diffyg newidiadau pris yn golygu nad oes newid yn ymddygiad ymwelwyr ac nad yw ein tri senario elastigedd yn berthnasol.**

Tra bod refeniw llety yn parhau'n ddigyfnewid, mae *gwariant* busnes wedi cynyddu yn unol â nifer y nosweithiau gwely wedi'u lluosi â chyfradd yr Ardoll (ar gyfer bandiau perthnasol) – gyda'i gilydd, gyda TAW wedi'i hychwanegu, mae hyn yn cyrraedd cyfanswm o £44.8m ym mhrisiau 2023 (a £37m yn nhermau 2019).

Felly, gan gymryd ochr cyflenwi ymwelwyr 2019 fel llinell sylfaen, tybiwn y caiff y £37m (Ardoll a TAW) ei dalu o refeniw busnes. At hynny, tybiwn na all busnesau twristiaeth ostwng costau mewnbwn canolradd mewn ymateb i'r 'wasgfa' ddilynol ar gyllid busnes[19]. Yn hytrach, mae cynilion gofynnol i'w canfod o fewn elfennau o werth ychwanegol, sy'n cael eu gostwng yn llinellol ar sail cyfansoddiad gwerth ychwanegol presennol ym mhob un o'n dau sector lletygarwch.

### *4.1.1 Elfennau 'Anuniongyrchol' – ac felly cyfanswm colledion (£1.30 / £0.75)*

Mae'r rhan fwyaf o ddadansoddiadau Mewnbwn-Allbwn yn gofyn am amcangyfrif o ymatebion cadwyn gyflenwi i sioc economaidd. Ein tybiaeth yma yw nad yw prisiau mewnbwn yn newid, ac nad yw niferoedd ymwelwyr na darbodion maint yn newid. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw effeithiau lluosydd cadwyn gyflenwi 'Math 1'. Fodd bynnag, ceir rhai effeithiau anuniongyrchol o ganlyniad i wasgfa'r ardoll, gan leihau incwm i'w wario (yn rhannol) ar hyd economi Cymru, ac arwain at ostyngiad cymedrol pellach i weithgarwch economaidd. Mae Tabl 11 yn darparu'r cyfrifiad hwn (ar ôl atchwyddo prisiau 2023) gan amcangyfrif cyfanswm colledion gwerth ychwanegol i economi Cymru ar -£53.0m[20].

[19]Mae hyn yn debygol o fod yn wir yn y rhan fwyaf o achosion, er enghraifft lle mae busnesau twristiaeth yn fach iawn, ond hefyd yn ofynnol i wneud ein dadansoddiad yn hawdd i'w reoli.
[20]Noder bod y dadansoddiad hwn yn awgrymu bod cyflogeion yn gostwng cyflogau yn unol â'r refeniw a gollwyd ac mae'r lefel gyflogaeth yn parhau i fod yn ddigyfnewid.

### *Tabl 11 Colledion Economaidd Blynyddol yn sgil yr Ardoll Ymwelwyr – Amsugno 100% (£1.30 / £0.75)*

| | Colledion Uniongyrchol yn Gysylltiedig â'r Ardoll | Effeithiau ysgogedig (ar gyflogau) | | | Cyfanswm effeithiau (uniongyrchol + ysgogedig) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl golledion £2023m | Llety | Llety | Diwyd. arall | Cyfanswm | Llety | Diwyd. arall | Cyfanswm |
| **Incwm gwario (y gweithlu)** | -£24.8 | -£6.7 | -£1.5 | £8.2 | -£26.9 | -£6.1 | -£33.0 |
| **Gwarged Gweithredu Gros (ac eithrio incwm cymysg)** | -£10.7 | - | - | - | -£7.6 | -£3.2 | -£10.7 |
| Treth Incwm a Hunangyflogaeth, pensiynau | -£6.7 | - | - | - | -£5.8 | -£0.9 | -£6.7 |
| Trethi llai cymorthdaliadau ar gynhyrchiant | -£2.5 | - | - | - | -£1.3 | -£1.2 | -£2.5 |
| **Gwerth Ychwanegol Gros** | -£44.8 | -£6.7 | -£1.5 | £8.2 | -£41.6 | -£11.4 | -£53.0 |

Noder: Ni fyddwn yn adio yn sgil talgrynnu annibynnol

### *4.1.2 Effeithiau Cyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr ar Wariant Sector Cyhoeddus a Refeniw Net*

Bydd Awdurdodau Lleol Cymru yn ennill pŵer gwario ychwanegol p'un a yw busnesau'n amsugno neu'n trosglwyddo'r Ardoll. Yn wir, yn yr achos amsugno, mae refeniw'r Ardoll rywfaint yn uwch gan nad yw'r economi ymwelwyr yn crebachu. Gan ddefnyddio'r tybiaethau y manylir arnynt uchod, amcangyfrifwn mai £20.6m yw'r buddiannau GYG ychwanegol.  Felly, effaith net yr achos 'amsugno' yw colled o £32.3m mewn gwerth ychwanegol gros i Gymru, sy'n cynnwys colled o £23.2m mewn incwm gwario[21] (Tabl 12).

### *Tabl 12 Amcangyfrif Effaith Flynyddol Net Cyflwyno Ardoll  Gwariant Cyhoeddus ar yr Economi Gyfan (Amsugno) (£1.30 / £0.75)*

| £2023 | Colledion cysylltiedig â'r ardoll | Buddiannau Gwariant Cyhoeddus | Effaith Net |
|---|---|---|---|
| Incwm Gwario | -£33.0 | £9.8 | -£23.2 |
| Gwarged Gweithredu Gros | -£10.7 | £6.2 | -£4.6 |
| Treth Incwm a Hunangyflogaeth, Pensiynau | -£6.7 | £4.4 | -£2.3 |
| Trethi Llai Cymorthdaliadau ar Gynhyrchiant | -£2.5 | £0.2 | -£2.3 |
| Gwerth Ychwanegol Gros | -£53.0 | £20.6 | -£32.3 |
| Cyflogaeth CALl *(gweler troednodyn)* | dd/g | 360 | 360 |

Noder: Ni fyddwn yn adio yn sgil talgrynnu annibynnol

[21]Noder mai arteffact o'n tybiaethau yw'r gyflogaeth ychwanegol net o 350 o swyddi CALl, sy'n lleihau cyflogau mewn sectorau llety yn effeithiol ac yn osgoi colli swyddi.

## 4.2 Asesu'r Effaith ar y cyfraddau uwch (£2.00 / £1.00)

Mae'n glir bod yr un rhesymeg yn wir am gyfraddau ardoll uwch, ond gydag effeithiau amlycach ar fusnesau wrth iddynt geisio amsugno costau'r Ardoll. Yn achos yr Ardoll uwch, bydd colledion GYG o fusnesau llety yn cyrraedd bron £70m yn uniongyrchol a mwy na £80m pan fydd effeithiau anuniongyrchol yn cael eu cyfrif amdanynt (Tabl 13).

*Tabl 13 Colledion Economaidd Blynyddol yn sgil yr Ardoll Ymwelwyr – Amsugno 100% (£2.00 / £1.00)*

| | Colledion Uniongyrchol yn Gysylltiedig â'r Ardoll | Effeithiau ysgogedig (ar gyflogau) | | | Cyfanswm effeithiau (uniongyrchol + ysgogedig) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl golledion £2023m | Llety | Llety | Diwyd. arall | Cyfan swm | Llety | Diwyd. arall | Cyfanswm |
| **Incwm gwario (y gweithlu)** | -£38.0 | -£10.3 | -£2.2 | -£12.6 | -£41.2 | -£9.4 | -£50.6 |
| **Gwarged Gweithredu Gros (ac eithrio incwm cymysg)** | -£16.4 | - | - | - | -£11.6 | -£4.9 | -£16.4 |
| Treth Incwm a Hunangyflogaeth, pensiynau | -£10.3 | - | - | - | -£8.9 | -£1.4 | -£10.3 |
| Trethi llai cymorthdaliadau ar gynhyrchiant | -£3.8 | - | - | - | -£2.0 | -£1.8 | -£3.8 |
| **Gwerth Ychwanegol Gros** | -£68.6 | -£10.3 | -£2.2 | -£12.6 | -£63.7 | -£17.5 | -£81.1 |

Noder: Ni fyddwn yn adio yn sgil talgrynnu annibynnol

Fel gydag Adran 4.1, gallwn amcangyfrif yr effeithiau economaidd ychwanegol – a mwy o faint – wrth i gyrff cyhoeddus wario eu derbyniadau Ardoll newydd ac uwch. Mae'r rhain yn gwneud cyfanswm o ryw £31.6m o Werth Ychwanegol Gros a rhyw 550 o swyddi. Mae cysoni'r gweithgarwch economaidd ychwanegol hwn â'r colledion a gafwyd yn sgil amsugno'r Ardoll yn awgrymu colledion economaidd net o ryw £50m ar gyfer economi Cymru yn gyffredinol, ond wrth gwrs, bydd hyn yn cwympo'n helaeth ar ddarparwyr llety ar ffurf llai o elw a chyflogau. Fel gydag Adran 4.1, mae enillion swyddi a adroddwyd yn arteffact o'r dull modelu i bob pwrpas: mae'n debygol y byddai rhai swyddi'n cael eu colli hefyd.

### *Tabl 14 Amcangyfrif Effaith Flynyddol Net Cyflwyno Ardoll Gwariant Cyhoeddus ar yr Economi Gyfan (Amsugno) (£2.00 / £1.00)*

| £2023 | Colledion cysylltiedig â'r ardoll | Buddiannau Gwariant Cyhoeddus | Effaith Net |
|---|---|---|---|
| Incwm Gwario | -£50.6 | £15.0 | -£35.6 |
| Gwarged Gweithredu Gros | -£16.4 | £9.5 | -£7.0 |
| Treth Incwm a Hunangyflogaeth, Pensiynau | -£10.3 | £6.8 | -£3.5 |
| Trethi Llai Cymorthdaliadau ar Gynhyrchiant | -£3.8 | £0.3 | -£3.5 |
| Gwerth Ychwanegol Gros | -£81.1 | £31.6 | -£49.5 |
| Cyflogaeth CALl *(gweler troednodyn)* | dd/g | 550 | 550 |

Noder: Ni fyddwn yn adio yn sgil talgrynnu annibynnol

# 5 I gloi

## *5.1 I Atgrynhoi*

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi ailasesu effaith debygol yr Ardoll Ymwelwyr o dan y cyfraddau ardoll diwygiedig ar yr economi ranbarthol: **£1.30 / £0.75** a **£2.00 / £1.00,** ar gyfer Bandiau Safonol ac Is yn y drefn honno. Rydym hefyd wedi eithrio (cyn belled ag y bo'n ymarferol) plant sy'n aros mewn llety Band Is o'r ystyriaeth o'r Ardoll (amcangyfrifwn bod hyn tua 440,000 o nosweithiau). Felly, gallwn ystyried sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar weithgarwch economaidd yng Nghymru, o ran colledion gros, colledion net (ar ôl i wariant o ganlyniad i gyflwyno'r Ardoll gael ei gyfrifo), ac yn achosion busnesau sy'n trosglwyddo'r Ardoll yn llawn, neu'n amsugno'r Ardoll fel rhan o'r costau busnes ehangach.

Yma, rydym wedi ceisio ailadrodd y fethodoleg a'r canlyniadau yn adroddiad 2024 Prifysgol Caerdydd/Llywodraeth Cymru *cyn belled ag y bo'n bosibl.* Mae'r rhan fwyaf o fanylion ar ddata a methodoleg wedi'u cynnwys ynddynt, a dylai darllenwyr newydd ymgyfarwyddo â'r ddogfen honno. **Noder fodd bynnag na ellir cymharu'r niferoedd a gyflwynir yma yn uniongyrchol â'r adroddiad blaenorol oherwydd defnydd yr adroddiad hwnnw o ddata perchenogol.**

## *5.2 Effaith Economaidd*

### *5.2.1 Cyfraddau Ardoll ar £1.30 / £0.75*

Mae ein gwaith modelu yn awgrymu, o dan ein tybiaeth elastigedd *niwtral* a chyfraddau o £1.30 / £0.75, bydd y galw gan ymwelwyr yn crebachu rhyw 1.6% os bydd busnesau llety yn trosglwyddo 100% o gostau'r Ardoll. Bydd hyn yn arwain at golledion blynyddol uniongyrchol a 'lluosydd' amcangyfrifedig o £18.2m mewn gwerth ychwanegol gros a 500 o swyddi CALI ar hyd economi Cymru (y rhan fwyaf ohonynt yn yr economi ymwelwyr).

Caiff yr effeithiau hyn eu gwrthbwyso'n rhannol wrth i awdurdodau lleol ail-wario incwm yr Ardoll (yn rhannol) ar nwyddau a gwasanaethau Cymreig. Amcangyfrifwn y caiff rhyw £20m o swyddi gwerth ychwanegol a 355 o swyddi CALL eu creu yn flynyddol oherwydd y gwariant newydd hwn.

Mewn telerau *net* felly, ni fyddai Ardoll Ymwelwyr ar y lefel a'r math a dybir yn gweld unrhyw newid effeithiol yng ngwerth ychwanegol gros blynyddol Cymru, a cholli 140 o swyddi CALI. Mae ein senario mwy pesimistaidd (elastigedd uchel) yn awgrymu colledion gros o 755 o swyddi CALI o effeithiau'r economi ymwelwyr a newid net o ryw 400 o

golledion swyddi CALl. Noder bod economi Cymru yn creu ac yn dinistrio rhyw 100,000 o swyddi bob blwyddyn, gyda'r newidiadau net yn ddegau ar filoedd yn nodweddiadol[22].

Os caiff costau'r Ardoll eu talu gan y sector llety yn gyfan gwbl, gyda'r Ardoll yn cael ei hamsugno yn y strwythurau prisiau presennol, bydd y colledion economaidd net yn fwy (yn y senario niwtral) ar ryw £32.3m o GYG y flwyddyn.

Ni chaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y senario £1.30 / £0.75 eu hailadrodd yma am resymau yn ymwneud ag adnoddau ac amserlen, ond gellir tybio eu bod yn agos at amcangyfrifon 2024.

### 5.2.2 Cyfraddau Ardoll ar £2.00 / £1.00

Nid yw'n syndod bod tybio cyfraddau Ardoll uwch (a throsglwyddo 100% i ymwelwyr) yn cynyddu'r lefel o effaith ar yr economi – y ddau yn negyddol, gan y caiff ymwelwyr (neu y tybir mai ymwelwyr ydynt) eu hatal rhag ymweld;  a chadarnhaol gan fod awdurdodau lleol yn ail-wario incwm yr Ardoll. Yn y senario pesimistaidd, gyda'r cyfraddau Ardoll uwch, mae colledion swyddi CALl yn sgil lleihad mewn ymweliadau yn gwneud cyfanswm o 1,155, sy'n dod i 0.1% o gyfanswm gweithlu Cymru. Mae'r gwariant cyhoeddus uwch sy'n gwrthbwyso hwn yn cefnogi oddeutu 540 o swyddi CALl ym mhob senario, gyda'r effaith net felly yn golygu rhyw 620 o golledion swyddi ar ei nifer mwyaf (a 225 o golledion swyddi CALl yn y senario niwtral).

Mae newidiadau *net* mewn gwerth ychwanegol gros yn ddibwys ym mhob senario, gan amrywio o +£16.9m i -£11.9m - ar y mwyaf, 0.02% o GYG Cymru yn 2023.

Yn achos busnesau'n amsugno'r Ardoll, mae canlyniadau achos £2.00 / £1.00 yn arwain at golledion uniongyrchol o £68.6m yn y sector lletygarwch ac £81.1m i economi Cymru yn gyffredinol (a thybiwn yma fod busnesau'n gostwng cyflogau ac elw yn hytrach na lleihau'r gweithlu). Ceir cynnydd sy'n gwrthbwyso o £31.6m o ganlyniad i ailwario'r Ardoll, gan arwain at golled net o -£49.5m mewn GYG.

## 5.3 Ystyriaethau Terfynol

Mae'r adroddiad hwn a'r un blaenorol yn 2024 wedi asesu effaith botensial yr Ardoll Ymwelwyr o dan dair set o gyfraddau posibl: £1.25 / £0.75; £1.30 / £0.75 a £2.00 / £1.00m, er bod y ddau achos olaf gydag eithriadau plant a gyda phensaernïaeth data/lefel manylder Tablau Mewnbwn-Allbwn ychydig yn wahanol. Ceir nifer o dybiaethau y mae'r

[22] https://www.llyw.cymru/llif-cyflogaeth-crynswth-neu-tro-cyflogaeth-ar-gyfer-cymru-2011-i-2014; www.nomisweb.co.uk

adroddiad cyntaf a mwy helaeth yn eu gwneud yn glir, yr ydym yn atgoffa darllenwyr yn eu cylch:

- Mae *pob* awdurdod lleol yng Nghymru yn rhoi'r Ardoll ar waith ac felly effeithir ar bob ymwelydd dros nos o fewn y cwmpas,
- Bydd ymwelwyr o Loegr yn penderfynu ymweld â Chymru ar sail y cynnydd cysylltiedig â'r Ardoll mewn costau teithiau, a heb ystyried y ffaith bod cyfnewid i gyrchfannau amgen yn debygol o arwain at gynnydd mewn teithio, ac felly mewn costau teithiau cyffredinol i'r mwyafrif o ymwelwyr.
- Yn sgil cyfyngiadau data, caiff ymatebion rhyngwladol i'r Ardoll ymwelwyr eu modelu fel ychwanegol (o ran canrannau) i gostau teithio o fewn y DU, nid costau teithiau cyffredinol (gyda'r Ardoll yn gyfran gryn dipyn yn llai o gostau teithiau gwirioneddol).

Mae pob un o'r tybiaethau uchod (sy'n ofynnol yn ôl cyfyngiadau data neu fodelu) yn *besimistaidd* ac felly mae pob un o'n tri senario elastigedd yn debygol o fod yn oramcangyfrifon o'r gostyngiad yn y galw gan ymwelwyr (noder fodd bynnag pe bai llai o awdurdodau lleol yn dewis gweithredu, byddai effeithiau cadarnhaol ailwario yr Ardoll yn lleihau ochr yn ochr â cholledion yr economi ymwelwyr).

Hyd yn oed gyda'r ymagwedd dywyll hon, casglwn fod cyfanswm effeithiau'r Ardoll yn debygol o fod mor fach, fel na fyddant yn fesuradwy yn ymarferol – a hynny yng nghyd-destun cyflogaeth llinell sylfaen sy'n dibynnu ar ymwelwyr o hyd at 100,000 o swyddi a'r tro cyflogaeth presennol arwyddocaol. **Diben hyn wrth gwrs yw peidio ag anwybyddu na bychanu'r ffaith y bydd busnesau unigol ac unigolion yn amau effeithiau negyddol profiadau:** mae hyn yn wir am unrhyw dreth.